OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 3202 (Cy. 325)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Glantwymyn i Fachynlleth, Powys) (Cyfyngiadau Traffig a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2014

Gwnaed	*1 Rhagfyr 2014*
Yn dod i rym	*8 Rhagfyr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersws – Machynlleth (yr A489) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, dehongli a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Rhagfyr 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Glantwymyn i Fachynlleth, Powys) (Cyfyngiadau Traffig a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A489 yn Sir Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A470 yng nghylchfan Glantwymyn i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 ym Machynlleth;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 8 Rhagfyr 2014 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 30 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o'r gefnffordd yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Rhagfyr 2014

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.